

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 2)

Y BIL ETHOLIADAU

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS”) 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Etholiadau (“y Bil”) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 5 Gorffennaf 2021. Mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd i'w weld yn: <https://publications.parliament.uk/pa/bills/lbill/58-02/0138/210138en.pdf>
3. Ar 16 Medi 2021, cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau, y cytunwyd arnynt yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin, a oedd yn cywiro'r canlyniadau anfwriadol ar gyfer etholiadau datganoledig yng Nghymru (a nodir ym mharagraff 231). Ar 11 Ionawr 2022, cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau pellach y cytunwyd arnynt yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin. Mae rhai o'r gwelliannau hyn yn gwneud darpariaeth sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Ar 28 Chwefror 2022, cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau cyn Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ac, unwaith eto, mae rhai o'r gwelliannau hyn yn gwneud darpariaeth sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Oherwydd negodiadau a thrafodaethau gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â nifer o ddarpariaethau'r Bil, bu oedi cyn y gellid gosod y memorandwm hwn.
4. Dechreuwyd ystyried y Bil gan Dŷ'r Arglwyddi ar 18 Ionawr 2022. Mae'r fersiwn o'r Bil, y cytunwyd arni gan Dŷ'r Cyffredin ac fel yr oedd pan gafodd ei chyflwyno i Dŷ'r Arglwyddi ei hystyried, i'w gweld yn: [Elections Bill \(parliament.uk\)](#).

Amcan(ion) Polisi

5. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw gwneud darpariaeth newydd ar gyfer cyfraith etholiadol bresennol a'i diwygio
6. Mae amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil wedi'u nodi yn y Datganiad Polisi, sydd i'w weld yn: [Elections Bill 2021: Summary factsheet - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

Crynodeb o'r Bil

7. Noddir y Bil gan Swyddfa'r Cabinet.
8. Mae'r Bil yn cynnwys y darpariaethau canlynol:

- Gofyniad i bleidleiswyr ddangos cerdyn adnabod yn etholiadau Senedd y DU, mewn etholiadau lleol yn Lloegr ac yn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yng Nghymru a Lloegr;
- Cyflwyno gwasanaeth ar-lein ar gyfer gwneud cais am bleidlais absennol;
- Mesurau diogelu ar gyfer pleidleisio drwy'r post a thrwy ddirprwy;
- Egluro a diweddarau'r gyfraith ar ddylanwad gormodol etholwyr;
- Egluro a diweddarau'r gyfraith ar y cymorth sydd ar gael i bleidleiswyr sydd ag anabledd;
- Dileu'r terfyn 15 mlynedd ar arfer hawliau pleidleisio yn etholiadau Senedd y DU a osodir ar hyn o bryd ar etholwyr Prydeinig sy'n byw dramor, a diwygiadau i'r broses gofrestru;
- Cyflwyno rheolau ar gyfer cymhwysedd dinasyddion yr UE sy'n pleidleisio ac yn sefyll mewn etholiadau lleol yng Ngogledd Iwerddon a Lloegr ac yn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yng Nghymru a Lloegr i bleidleisio ac ymgeisio;
- Diwygio'r darpariaethau presennol ar gyfer atebolrwydd y Comisiwn Etholiadol i Senedd y DU;
- Diwygio'r darpariaethau presennol ynghylch cyllid gwleidyddol a gwariant mewn etholiadau;
- Cyflwyno gorchymyn anghymhwysu newydd os yw person yn cael ei gollfarnu o drosedd fygythiol; a
- Gofyniad i ddeunydd ymgyrchu digidol arddangos argraffnod digidol.

Diweddariad ar y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf

9. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gennym ar 9 Medi 2021, yn seiliedig ar y Bil fel y'i cyflwynwyd gerbron Senedd y DU (Tŷ'r Cyffredin) ar 5 Gorffennaf 2021. Roedd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi manylion ein pryderon sylweddol am y Bil fel y'i cyflwynwyd, ac yn cadarnhau na fyddem mewn sefyllfa i argymhell bod Senedd Cymru yn rhoi ei chydysyniad i'r Bil fel y'i cyflwynwyd oni bai bod y Bil yn cael ei ddiwygio'n sylweddol i fynd i'r afael â'r pryderon hynny.
10. Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno nifer o welliannau ers cyflwyno'r Bil, yn Nhŷ'r Cyffredin ac yn Nhŷ'r Arglwyddi. Mae'r gwelliannau hyn yn newid yn sylweddol y Bil gwreiddiol fel y'i cyflwynwyd ac yr oedd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol yn seiliedig arno. Felly, rhaid ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a'r memorandwm atodol hwn gyda'i gilydd wrth benderfynu ar gydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn.
11. Cyflwynodd Llywodraeth y DU nifer o welliannau ar 11 Ionawr 2022 cyn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin, ac mae'r rheini bellach yn rhan o'r Bil. Gellir gweld y gwelliannau hyn yma: [elections_rm_rep_0111.fm\(parliament.uk\)](https://elections.rm.rep.0111.fm(parliament.uk)). Y gwelliannau penodol a gyflwynwyd ar 11 Ionawr y mae'r memorandwm atodol hwn yn cyfeirio

atynt, yw'r rhai sy'n ymwneud â'r darpariaethau ynghylch argraffnodau digidol fel yr amlinellir ym mharagraffau 34-43 isod.

12. Er bod y cyfnod arferol o bythefnos ar gyfer gosod wedi mynd heibio ers i welliannau 11 Ionawr gael eu cyflwyno, mae'r memorandwm atodol hwn yn cael ei osod ar hyn o bryd er mwyn iddo allu adlewyrchu canlyniad ein negodiadau a'n trafodaethau gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â nifer o ddarpariaethau'r Bil, gan gynnwys y gwelliannau hynny a gyflwynwyd ar 11 Ionawr ac y cytunwyd i'w cynnwys yn y Bil ar 17 Ionawr.
13. O ganlyniad i ymgysylltu cadarnhaol â Llywodraeth y DU, rydym wedi llwyddo i sicrhau gwelliannau sy'n eithrio etholiadau datganoledig o nifer o ddarpariaethau'r Bil. O ganlyniad, mae ein pryderon blaenorol, a nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol, ynghylch dylanwad gormodol, y Comisiwn Etholiadol, gwariant tybiannol a mesurau cyllid gwleidyddol eraill wedi cael sylw digonol yng ngwelliannau Llywodraeth y DU a gyflwynwyd ar 28 Chwefror 2022 i'w hystyried yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi. Ceir amlinelliad o'r gwelliannau perthnasol ym mharagraffau 17-29.
14. Ar 28 Chwefror 2022, cyflwynwyd gwelliannau pellach gan Lywodraeth y DU i'r darpariaethau ynghylch argraffnodau digidol yn Rhan 6 o'r Bil, yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi. Mae gan y gwelliannau hyn oblygiadau hefyd i'r gwelliannau blaenorol a gyflwynwyd ar 11 Ionawr. Ymdrinnir â'r rhain ym mharagraffau 44-53.
15. Mae'r meysydd lle mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn parhau i arddel barn wahanol ynghylch cymhwysedd yn cael eu hystyried isod ym mharagraffau 33-57.

Newidiadau i'r Bil ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf ar 9 Medi 2021, sy'n cael yr effaith o eithrio etholiadau datganoledig yng Nghymru rhag cwmpas y darpariaethau

16. Ar ôl ymgysylltu adeiladol â Llywodraeth y DU yn ystod y misoedd diwethaf, cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau cyn Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar 28 Chwefror 2022, sy'n eithrio etholiadau datganoledig yng Nghymru rhag cwmpas llawer o'r darpariaethau a nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol. Mae'r gwelliannau ar gael yn llawn yma: [1501\(parliament.uk\)](https://www.parliament.uk). Mae fy marn ynghylch y gwelliannau eithrio perthnasol wedi'i nodi isod. Mae'n bwysig cydnabod yma yr ymgysylltu cadarnhaol a fu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau'r eithriadau hyn i Gymru a dylanwad llwyddiannus Llywodraeth Cymru ar y Bil hwn gan y DU yn y meysydd hyn.

Dylanwad Gormodol - Cymal 8 ac Atodlen 5

17. Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd i gymal 8 yn mewnosod adran newydd, sef 114A yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (Deddf 1983) sy'n darparu

mai dim ond i etholiadau Senedd y DU ac etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr y mae'r drosedd newydd o ddylanwad gormodol, fel y'i mewnosodir gan y ddarpariaeth honno, yn berthnasol. Felly, mae'r drosedd bresennol o ddylanwad gormodol yn adran 115 o Ddeddf 1983 wedi'i chadw ar gyfer etholiadau Senedd Cymru ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

18. Er ein bod wedi llwyddo i sicrhau'r gwelliannau hyn, erys sefyllfa lle gallai'r drosedd newydd yn adran 114A o Ddeddf 1983 barhau i fod yn berthnasol i etholiadau Senedd Cymru oherwydd effaith paragraff 5 o Atodlen 1A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006). Mae'r ddarpariaeth hon yn anghymhwys person rhag bod yn Aelod o Senedd Cymru neu'n ymgeisydd mewn etholiad i fod yn Aelod o Senedd Cymru mewn amgylchiadau lle na ellir ei ethol i Dŷ'r Cyffredin o ganlyniad i gael ei adrodd yn euog yn bersonol neu ei gollfarnu o unrhyw fath o arfer llygredig neu anghyfreithlon o dan Ddeddf 1983. Gan y bydd y ddwy drosedd wahanol yn adran 114A a 115 o Ddeddf 1983 yn bodloni'r diffiniad o arfer llwgr ['corrupt practice'], bydd paragraff 5 o Atodlen 1A i Ddeddf 2006 yn dod yn awtomatig o fewn y diffiniad estynedig o arfer llwgr fel y mae'n gymwys i etholiadau Senedd y DU. Mae hyn yn golygu y bydd person sy'n cael ei atal rhag bod yn Aelod o Senedd y DU o ganlyniad i gyflawni'r drosedd newydd o dan adran 114A o Ddeddf 1983 hefyd yn cael ei atal rhag bod yn Aelod o Senedd Cymru.
19. Yn ein barn ni, mae'n briodol nad yw'r Bil yn diwygio Atodlen 1A i Ddeddf 2006. Mewnosodwyd yr Atodlen hon yn Neddf 2006 gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (Deddf 2020). Byddai newid y meini prawf ar gyfer anghymhwysio unigolion rhag bod naill ai'n Aelod o Senedd Cymru neu'n ymgeisydd mewn etholiad i fod yn Aelod o Senedd Cymru yn newid sylweddol i'r drefn bresennol a nodir yn Atodlen 1A i Ddeddf 2006, y bu Senedd Cymru yn craffu arni cyn pasio Deddf 2020. Llywodraeth Cymru, yn hytrach na Llywodraeth y DU, ddylai benderfynu a oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r dull a ddefnyddir gan Ddeddf 2020 cyn etholiadau nesaf Senedd Cymru yn 2026. Hefyd, Senedd Cymru ddylai graffu ar unrhyw gynigion ar gyfer newid deddfwriaethol a allai gael eu cynnwys mewn unrhyw Fil gan Senedd Cymru yn y dyfodol.

Cymal 14 - Datganiad Polisi a Strategaeth

20. Mae'r gwelliannau'n diwygio'r adran 4(3A) newydd sydd i'w mewnosod yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (Deddf 2000) drwy eithrio swyddogaethau datganoledig Cymru rhag cwmpas unrhyw Ddatganiad Polisi a Strategaeth sydd i'w gyhoeddi gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan y ddarpariaeth honno. Mae'r gwelliannau hyn a gyflwynwyd yn mynd i'r afael â phryderon a godwyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch etholiadau datganoledig.

Cymal 15 - Archwilio'r ddyletswydd i roi sylw i ddatganiad polisi a strategaeth

21. Nid yw ein pryderon blaenorol am gymal 15 bellach yn berthnasol o ganlyniad i'r dull a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth y DU yn eu gwelliannau. Ni fydd pŵer craffu Pwyllgor y Llefarydd o dan adran 13ZA o Ddeddf 2000 yn cynnwys archwiliad o swyddogaethau datganoledig Cymru o ran y Comisiwn Etholiadol oherwydd bod y rhain wedi'u heithrio o gynnwys y Datganiad Polisi a Strategaeth gan gymal 14.

Cymal 18 - Gwariant tybiannol: defnyddio eiddo etc. ar ran ymgeiswyr ac eraill

22. Mae'r gwelliant a gyflwynwyd yn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chymal 18(1). Mae adran 90C o Ddeddf 1983 wedi'i diwygio fel nad yw bellach yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chymhwyso'r rheolau ar wariant ymgyrchu i ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.
23. Roedd paragraff 17 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol hefyd yn nodi cymal 18(5), a oedd yn diwygio adran 112 o Ddeddf 2000 mewn perthynas â gwariant tybiannol fel darpariaeth a oedd yn gofyn am gydsyniad Senedd Cymru. Nid yw'r ddarpariaeth hon wedi cael ei diwygio. Fodd bynnag, gan fod ein prif bryderon yn ymwneud â chymal 18(1), sydd bellach wedi cael sylw, rydym yn fodlon cefnogi'r ddarpariaeth hon. Mae'r amgylchiadau lle y byddai'r ddarpariaeth a wneir gan gymal 18(5) yn cael effaith wedi'u cyfyngu i refferenda sydd naill ai'n cael eu cynnal ledled y DU neu mewn un neu fwy o wledydd y DU. Yn ogystal, rhaid i'r refferendwm perthnasol fod yn un a gynhelir gan neu o dan un o Ddeddfau Senedd y DU. Nid yw'r ddarpariaeth yn cynnwys refferendwm a gynhelir gan neu o dan un o Ddeddfau neu Fesurau Senedd Cymru na phôl a gynhelir o dan adran 64 o Ddeddf 2006.

Cymal 19 - Codau ymarfer ar dreuliau

24. Roedd y ddarpariaeth hon yn diwygio'n wreiddiol swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag etholiadau datganoledig drwy ddiwygio pŵer Gweinidogion Cymru i ddyroddi cod ymarfer gan y Comisiwn Etholiadol o dan baragraff 14A o Atodlen 4A i Ddeddf 1983, yn ogystal â phŵer Gweinidogion Cymru i ddynodi'r dyddiad y daw cod ymarfer o dan baragraff 14A i rym. Mae'r gwelliannau'n mynd i'r afael â phryderon Llywodraeth Cymru drwy fewnosod darpariaeth sy'n darparu nad yw'r diwygiadau i baragraff 14A o Atodlen 4A i Ddeddf 1983 yn gymwys i orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

Cymal 20 - Personau awdurdodedig nad yw'n ofynnol iddynt dalu treuliau drwy asiant etholiadol

25. Roedd cymal 20 yn diwygio adran 73 o Ddeddf 1983 i egluro bod rhaid i dreuliau a ysgwyddir o dan adran 75 mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol gael eu hawdurdodi. Mae'r gwelliant a gyflwynwyd yn mynd i'r afael â'n pryderon drwy eithrio treuliau a ysgwyddir mewn

perthynas ag etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru rhag cwmpas y ddarpariaeth.

Cymal 24 - Cyfyngiad ar ba drydydd partiön all ysgwyddo gwariant a reolir

26. Roedd y darpariaethau gwreiddiol yn mewnosod adran newydd, sef 89A yn Neddf 2000 a oedd yn cael yr effaith o gyfyngu ar ba drydydd partiön a allai ysgwyddo gwariant a reolir. Roedd y darpariaethau hynny hefyd yn cynnwys gwariant a ysgwyddir mewn perthynas ag etholiadau Senedd Cymru. Mae'r gwelliannau'n mynd i'r afael â'n pryderon drwy eithrio etholiadau Senedd Cymru rhag cwmpas y darpariaethau. Mae'r gwelliannau'n cael yr effaith hon drwy ddarparu mai dim ond i etholiadau cyffredinol Senedd y DU neu etholiadau cyffredinol i Gynulliad Gogledd Iwerddon y mae'r cymal yn gymwys.

Cymal 25 - Trydydd partiön sy'n gallu rhoi hysbysiad at ddibenion Rhan 6 o Ddeddf 2000

27. Roedd y darpariaethau gwreiddiol yn rhoi pŵer i wneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig i ddiwygio adran 88(2) o Ddeddf 2000 i'r perwyl o ddiwygio drwy ychwanegu, dileu neu amrywio disgrifiadau trydydd partiön. Mae'r gwelliant a gyflwynwyd yn mynd i'r afael â'n pryderon drwy gyfyngu ar arfer y pŵer sydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau at ddibenion cyfnodau sy'n ymwneud ag etholiadau cyffredinol Senedd y DU neu etholiadau cyffredinol i Gynulliad Gogledd Iwerddon.

Cymal 26 - Trydydd partiön cydnabyddedig: newidiadau i derfynau presennol etc.

28. Roedd y ddarpariaeth hon yn diwygio gwahanol adrannau o Ddeddf 2000 i'w gwneud yn ofynnol i ymgyrchwyr trydydd parti roi hysbysiad i'r Comisiwn Etholiadol ar lefel wario is nag sy'n ofynnol ar hyn o bryd, gan greu system gofrestru ddwy haen i bob pwrpas. Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd yn mynd i'r afael â'n pryderon drwy sicrhau nad yw'r cymal yn gymwys mewn unrhyw ffordd i etholiadau datganoledig. Mae'r gwelliannau'n cael yr effaith hon drwy ddarparu mai dim ond mewn perthynas â chyfnodau sy'n ymwneud ag etholiadau cyffredinol Senedd y DU neu etholiadau cyffredinol i Gynulliad Gogledd Iwerddon y mae'r cymal yn gymwys.

Cymal 27 - Ymgyrchu ar y cyd gan bleidiau cofrestredig a thrydydd partiön

29. Roedd y cymal hwn yn diwygio adran 94(6) o Ddeddf 2000 fel y bydd ymgyrchwyr trydydd parti a phleidiau gwleidyddol sy'n gweithio gyda'i gilydd ar ymgyrch ar y cyd yn adrodd am unrhyw wariant cysylltiedig ac yn nodi'r partiön sy'n gysylltiedig â'r trefniant. Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd yn mynd i'r afael â'n pryderon drwy sicrhau nad yw'r cymal yn

gymwys mewn unrhyw ffordd i etholiadau datganoledig. Mae'r gwelliannau'n cael yr effaith hon drwy ddarparu mai dim ond mewn perthynas â chyfnodau sy'n ymwneud ag etholiadau cyffredinol Senedd y DU neu etholiadau cyffredinol i Gynulliad Gogledd Iwerddon y mae'r cymal yn gymwys.

Crynodeb

30. Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r gwelliannau a amlinellir ym mharagraffau 17-29.

Cymhwysedd dinasyddion Ewrop i bleidleisio ac ymgeisio (Cymal 13 ac Atodlen 8)

31. Mae hefyd angen cydnabod y cynnydd a wnaed mewn perthynas â darpariaethau ynghylch cymhwysedd dinasyddion Ewrop i bleidleisio ac ymgeisio. Cyflwynwyd gwelliannau i'r rhain ar 16 Medi 2021 i gywiro'r canlyniadau anfwriadol ar gyfer etholiadau datganoledig yng Nghymru a oedd yn ceisio cyfyngu ar gymhwyso'r newidiadau i etholiadau a gadwyd yn ôl fel y bwriadwyd yn wreiddiol. Nodir y sefyllfa'n llawn yn y llythyr canlynol at Gadeiryddion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai: [Eich cyf \(senedd.cymru\)](https://www.senedd.cymru/).

Newidiadau i'r Bil ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf ar 9 Medi 2021, y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

32. Er gwaethaf y cynnydd cadarnhaol a wnaed i eithrio Cymru o rai agweddau hanfodol ar y Bil, mae'n amlwg bod gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU farn wahanol o hyd ynghylch yr agweddau sy'n ymwneud ag argraffnodau digidol a bygwth. Mae paragraffau 34-53 isod yn nodi'r newidiadau perthnasol a wnaed i'r darpariaethau ynghylch argraffnodau digidol yn Rhan 6 o'r Bil yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin a'r gwelliannau a gyflwynwyd yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi sy'n gofyn am gydsyniad Senedd Cymru.

Rhan 6 o'r Bil - Darpariaethau ynghylch Argraffnodau Digidol

33. Gosodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol ar gyfer yr holl ddarpariaethau ynghylch argraffnodau digidol yn y Bil (fel y'u cynhwysir yng nghymalau 35-56 y Bil fel y'i cyflwynwyd) ar y sail bod y darpariaethau wedi'u bwriadu i reoleiddio tryloywder deunydd etholiadol a gyhoeddir ar-lein a sicrhau bod darllenwyr a derbynwyr y deunydd etholiadol hwnnw yn deall pwy sydd wedi cyhoeddi'r deunydd ar-lein. Amlinellwyd barn Llywodraeth Cymru ynghylch y darpariaethau hyn ym mharagraffau 34-38 yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol. Amlinellaf fy marn ynghylch y gwelliannau a osodwyd ers y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol isod.

Gwelliannau a wnaed i Ran 6 o'r Bil yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin

34. Mae'r gwelliannau llawn a wnaed yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin i'w gweld yma: [elections_rm_rep_01_11_fm\(parliament.uk\)](http://elections_rm_rep_01_11_fm(parliament.uk)). Ceir trosolwg o'r gwelliannau perthnasol a'r darpariaethau cysylltiedig isod:

Cymal 40 (Deunydd electronig y mae adran 39 yn gymwys iddo: deunydd y telir amdano):

35. Gwneir gwelliannau i'r cymal i gyfeirio at y dibenion newydd y cyfeirir atynt yng nghymal 41, fel y nodir yn y gwelliant canlynol isod.

Cymal 41 (Dibenion y cyfeirir atynt yn adran 40):

36. Mae'r ddarpariaeth hon yn disodli'r dibenion a nodwyd yn flaenorol yng nghymal 39(3) o'r Bil fel y dibenion y bwriedir eu cyflawni drwy ddeunydd electronig y telir amdano er mwyn i Ran 6 fod yn gymwys i'r deunydd. Mae'r cymal newydd hwn yn ei gwneud yn glir bod hyn yn cynnwys deunydd sydd o blaid categorïau o bleidiau, ymgeiswyr a deiliaid swyddi etholedig ac yn gymwys p'un a yw'r deunydd yn enwi'r blaid yn benodol ai peidio.

Cymal 42 (Deunydd electronig y mae adran 39 yn gymwys iddo: deunydd electronig arall)

37. Mae'r ddarpariaeth wedi'i diwygio i egluro, er mwyn i ddeunydd electronig fodloni'r amod yn is-baragraff (2)(b) mewn perthynas â refferendwm, fod rhaid cyhoeddi'r deunydd yn ystod cyfnod y refferendwm ar gyfer y refferendwm hwnnw.

Cymal 43 (Dibenion y cyfeirir atynt yn adran 42)

38. Gwnaed nifer o welliannau i'r ddarpariaeth hon er mwyn sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r dull a ddefnyddir yng nghymal 41. Mae'r gwelliannau'n ei gwneud yn glir nad oes angen i ddeunydd electronig sôn yn benodol am enw penodol ac y gall deunydd electronig ymwneud â mwy nag un etholiad penodol.

Cymal 44 (Deunydd electronig sy'n ymwneud â mwy nag un ymgeisydd neu ymgeisydd yn y dyfodol)

39. Gwneir gwelliannau canlyniadol i'r ddarpariaeth hon i groesgyfeirio at y dibenion yng nghymal 39.

Cymal 48 (Gorfodi gan y Comisiwn)

40. Mae'n diwygio cwmpas pwerau gorfodi'r Comisiwn Etholiadol o dan y ddarpariaeth honno i'w gwneud yn glir ei fod yn cynnwys trosedd o dan

adran 46(1) sy'n ymwneud â chyhoeddi deunydd electronig y gellir yn rhesymol ystyried ei fod wedi'i fwriadu i gyflawni diben o fewn—

- (i) Adran 41(2) (pleidiau cofrestredig etc.),
- (ii) Adran 41(7) (categoriâu o ddeiliaid swyddi etholedig), neu
- (iii) Adran 41(9) (referenda).

Atodlen 11 (Arferion Anghyfreithlon)

- 41. Mae gwelliant yn cael ei wneud i baragraff 3 (Ymgeiswyr etc. mewn etholiadau yn Senedd Cymru) i gyfeirio at y “Dibenion” a nodir yn adran 41(4).
- 42. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y gwelliannau hyn gyda'i gilydd, mewn perthynas ag etholiadau datganoledig, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Mae'r gwelliannau'n diwygio darpariaethau sy'n gymwys i etholiadau datganoledig ac o'u hystyried gyda'i gilydd gellir barnu eu bod yn ymwneud â mater nas cedwir yn ôl, sef bwriad i reoleiddio tryloywder deunydd etholiadol a gyhoeddir ar-lein a sicrhau bod darllenwyr a derbynwyr y deunydd etholiadol hwnnw'n deall pwy sydd wedi cyhoeddi'r deunydd ar-lein. Mae hwn yn ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.
- 43. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn, er nad oes anghytundeb â bwriad y polisi, fod y gwelliannau hyn yn ymwneud â thryloywder etholiadol sydd, o ran etholiadau datganoledig, yn dod o fewn cymhwysedd datganoledig ac yn gofyn am gydsyniad Senedd Cymru.

Gwelliannau a gyflwynwyd i Ran 6 o'r Bil yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi

- 44. Cyflwynodd Llywodraeth y DU nifer o welliannau hefyd i'r darpariaethau o ran argraffnodau digidol ar 28 Chwefror 2022. Gellir gweld y gwelliannau hynny yma: [1501 \(parliament.uk\)](https://www.parliament.uk). Ceir trosolwg o'r diwygiadau perthnasol a'r darpariaethau cysylltiedig isod:

Cymal 40 (Deunydd electronig y mae adran 39 yn gymwys iddo: deunydd y telir amdano)

- 45. Hepgorir cymal 40(2) sy'n nodi pryd y mae'r amod cyntaf ar gyfer penderfynu a yw deunydd electronig yn dod o fewn cwmpas cymal 39. Mae'r ddarpariaeth newydd i'w ddisodli yn darparu nad yw'r amod yng nghymal 40(2) yn cael ei fodloni ond pan fo y “sole or primary purpose” y gellir ystyried yn rhesymol bod y deunydd electronig yn ei gyflawni yn ddiben yng nghymal 41.
- 46. Mae cymal 40(3) yn cael ei ddiwygio i'w gwneud yn glir na chaiff yr ail amod ei fodloni ond pan fydd hyrwyddwr y deunydd perthnasol, neu'r person y cyhoeddir y deunydd perthnasol ar ei ran, wedi talu i'r deunydd gael ei gyhoeddi fel hysbyseb.

47. Mewn sodir is-adran (5) a (6) newydd i'w gwneud yn glir, mewn achosion lle y cyhoeddir deunydd electronig ar wefan neu ar gyfer dyfeisiau symudol, nad yw'r cyfeiriad yng nghymal 40(3) at berson sy'n talu am gyhoeddi deunydd yn cynnwys gwneud taliadau sy'n ymwneud â sefydlu, gweithredu neu gynnal y wefan neu'r ap ar gyfer dyfeisiau symudol .

Cymal 41 (Dibenion y cyfeirir atynt yn adran 40)

48. Mae'r diwygiadau i gymal 41 yn ei gwneud yn glir nad yw'r cyfeiriadau yn y dibenion at ddylanwadu ar y cyhoedd i roi cymorth i unigolion o'r fath neu ei ddal yn ôl ond yn gymwys yn rhinwedd eu swydd fel ymgeisydd/darpar ymgeisydd neu ddeiliad swydd etholedig etc. Mae cymal 41(11) hefyd wedi'i hepgor a fydd yn golygu y bydd cyfeiriadau at refferendwm yn y ddarpariaeth honno bellach yn disgrifio pleidlais a gynhelir o dan adran 64 o Ddeddf Llywodraeth Cymru.

Cymal 42 (Deunydd electronig y mae adran 39 yn gymwys iddo: deunydd electronig arall)

49. Mae'r gwelliant hwn yn mewnosod trydydd amod newydd sy'n darparu nad yw cymal 42 yn gymwys mewn perthynas â deunydd electronig pan fo hyrwyddwr y deunydd neu'r person y cyhoeddir y deunydd ar ei ran wedi talu i'r deunydd gael ei gyhoeddi fel hysbyseb.

Cymal 45 (Eithriadau i adran 39)

50. Gwneir nifer o ddiwygiadau i'r ddarpariaeth hon i egluro y gall yr eithriad ailgyhoeddi yng nghymal 45 fod yn gymwys pan fo'r cyhoeddi gwreiddiol a'r ailgyhoeddi diweddarach yn cael eu cyflawni gan yr un person.

Cymal 46: Cymal 46: (Trosedd o dorri adran 39)

51. Mae'r gwelliant yn mewnosod amddiffyniad ychwanegol yng nghymal 46 mewn perthynas ag ailgyhoeddi deunydd electronig. Mae'r amddiffyniad yn gymwys pan fo deunydd wedi'i gyhoeddi'n flaenorol a phan fo'r person a gyhuddwyd o'r drosedd yn credu'n rhesymol ei fod yn cydymffurfio â chymal 39 adeg ei gyhoeddi mewn amgylchiadau lle na chafodd y deunydd hwnnw ei newid yn sylweddol pan gafodd ei ailgyhoeddi.

Cymal 48 (Gorfodi gan y Comisiwn)

52. Mae'r gwelliant hwn yn darparu y gall y Comisiwn Etholiadol orfodi'r drosedd yng nghymal 46(1) mewn perthynas â chyhoeddi deunydd electronig y gellir barnu yn rhesymol y bwriedir iddo gyflawni diben o fewn cymal 41(9)(refferenda) yn unig mewn perthynas â refferendwm y mae Rhan 7 o Ddeddf 2000 yn gymwys iddo a phan gyhoeddir y deunydd yn ystod cyfnod y refferendwm perthnasol.

53. Yn yr un modd â'r sefyllfa o ran y gweliannau a basiwyd yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin, ein barn ni yw bod y gweliannau a gyflwynwyd ar 28 Chwefror 2022, o'u hystyried gyda'i gilydd mewn perthynas ag etholiadau datganoledig, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Mae'r gweliannau'n diwygio darpariaethau sy'n gymwys i etholiadau datganoledig, ac o'u hystyried yn eu cyfanrwydd gellir barnu eu bod yn ymwneud â mater nas cedwir yn ôl, sef bwriadu rheoleiddio tryloywder deunydd etholiadol a gyhoeddir ar-lein a sicrhau bod darllenwyr a derbynwyr y deunydd etholiadol hwnnw'n deall pwy sydd wedi cyhoeddi deunydd ar-lein.

Materion sy'n weddill o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol

Bygwth (anghymhwysu)

54. Un maes nad yw Llywodraeth y DU wedi ceisio ei eithrio yn achos Cymru yw mewn perthynas â Rhan 5 o'r Bil – Anghymhwysu Troseddwr rhag Dal Swyddi Etholedig etc. Mae'r Rhan hon yn cyflwyno cosb etholiadol newydd ar ffurf gorchymyn anghymhwysu y bwriedir iddo ddarparu amddiffyniad ychwanegol i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn etholiadau a chyfrannu at y ddadl wleidyddol, ac atal unigolion rhag cyflawni gweithredoedd bygythiol yn eu herbyn.
55. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan nad ydym yn gwrthwynebu'r darpariaethau ar fygythiadau mewn egwyddor, gan ei bod yn bwysig amddiffyn cyfranogwyr yn y broses ddemocrataidd.
56. Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod y gorchymyn anghymhwysu ar sail bygythiadau yn ymwneud â mater achosion troseddol a gedwir yn ôl (sy'n cynnwys dedfrydu) ac felly nad yw'r broses cydsyniad deddfwriaethol wedi'i sbarduno. Felly, mae Llywodraeth y DU wedi datgan na fyddai'n ystyried gwelliant i ddileu cymhwysiad y gorchymyn anghymhwysu i etholiadau datganoledig a swyddi etholedig yng Nghymru.
57. Safbwynt Llywodraeth Cymru o hyd yw bod y darpariaethau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig oherwydd yr effaith y mae'r darpariaethau'n ei chael ar gymhwysu aelodaeth o'r Senedd ac awdurdodau lleol yng Nghymru. Rydym hefyd o'r farn y dylai fod gan bob deddfwrfa y rhyddid i benderfynu ar ei threfn anghymhwysu ei hun a'r drefn ar gyfer yr etholiadau y mae'n gyfrifol amdanynt. Nodir y sefyllfa'n llawn ym mharagraffau 29-33 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol.

Cyffredinol (cymalau 60 a 61)

58. Credir hefyd fod cydsyniad Senedd Cymru yn angenrheidiol ar gyfer cymalau 60 a 61 fel y'u nodir ym mharagraffau 39-41 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol. Gellid defnyddio cymal 60 i ddiwygio unrhyw rai o'r darpariaethau sy'n effeithio ar etholiadau

datganoledig, a gallai Cymal 61 fod â goblygiadau posibl i Gronfa Gyfunol Cymru ac ariannu etholiadau datganoledig ac felly maent yn ganlyniadol i ddarpariaeth ddatganoledig.

59. Darpariaethau safonol yw'r rhain ac rydym yn cefnogi eu cynnwys. Er y gellid arfer y pŵer i wneud rheoliadau yng nghymal 60 i ddiwygio deddfwriaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, mae'n ddarpariaeth sydd wedi'i diffinio mewn modd cyfyngedig nad yw ond yn caniatáu i ddiwygiadau canlyniadol gael eu gwneud gan y Bil, neu i ddarpariaethau a ddiwygir gan y Bil, o ganlyniad i ddiwygio neu ddirymu unrhyw is-ddeddfwriaeth y cyfeirir ati yn y Bil. Mae angen dull gweithredu o'r fath er mwyn sicrhau bod effaith darpariaethau'r Bil yn dal i weithredu'n briodol ar ôl diwygio neu ddirymu unrhyw is-ddeddfwriaeth y cyfeirir ati yn y Bil. Gan fod etholiadau datganoledig bellach wedi'u heithrio rhag y rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Bil, mae goblygiadau posibl y ddarpariaeth hon ar ddeddfwriaeth o fewn cymhwysedd y Senedd yn cael eu lleihau'n sylweddol.

Goblygiadau ariannol

60. Nid ystyrir bod unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i Gymru o ganlyniad i'r gwelliannau i Ran 6 o'r Bil. Crynhoir effaith ariannol y Bil (fel y'i cyflwynwyd) fel y mae'n effeithio ar Cymru yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 9 Medi 2021. Er bod y diwygiadau sy'n eithrio etholiadau datganoledig rhag nifer o ddarpariaethau'r Bil yn mynd i'r afael â'r materion ariannol o ran y meysydd y maent yn ymwneud â hwy, mae'r pryderon cyffredinol a nodir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol yn dal yn gymwys.

Casgliad

61. Rwyf yn croesawu ymgysylltiad cadarnhaol Llywodraeth y DU wrth eithrio Cymru rhag darpariaethau allweddol yn y Bil. Er hynny, rwyf yn anghytuno â Llywodraeth y DU nad oes angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer y darpariaethau sy'n ymwneud ag argraffnodau digidol a bygythiadau a amlinellir ym mharagraff 33-57 uchod. Mae'r darpariaethau ynghylch argraffnodau digidol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, i'r graddau y maent yn cynnwys darpariaeth sy'n ymwneud ag etholiadau datganoledig. Mae'r darpariaethau ynghylch bygythiadau yn cael effaith uniongyrchol ar y meini prawf cymhwysedd ar gyfer aelodaeth o'r Senedd ac awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae ar y darpariaethau hyn, felly, angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd.
62. Nid wyf yn anghytuno â bwriad polisi Llywodraeth y DU ar gyfer y darpariaethau sy'n ymwneud ag argraffnodau digidol a bygythiadau ond rwyf o'r farn ein bod yn gallu penderfynu, ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid, yr opsiynau ar gyfer cyflwyno deddfwriaeth i'r Senedd maes o law ar y materion hyn.

63. Er bod gwrthwynebiad Llywodraeth Cymru i rannau helaeth o'r Bil yn hysbys iawn, ac eithrio'r ddau faes sy'n destun anghytundeb uchod, rydym fel arall yn fodlon nad yw prif elfennau'r Bil yn effeithio ar faterion sydd o fewn cymhwysedd y Senedd. Rwyf yn argymhell, felly, fod y Senedd yn rhoi cydsyniad i'r darpariaethau sydd naill ai o fewn cydsyniad deddfwriaethol y Senedd neu sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig.

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
22 Mawrth 2022